AWGRYMIADAU AR GYFER GWERSI CA3

6. Free Art

[Celf am Ddim]

Nicolas Bro, 2015, Ffrainc

Deialog a Dadlau:

Holi pobl eraill yn fanwl am eu syniadau i gael gwybod mwy

Mae dysgu mwy am syniad yn bwysig er mwyn gallu ei werthuso'n iawn. Anogwch y myfyrwyr i holi'n fanwl am syniadau ei gilydd yn hytrach na dim ond symud ymlaen i'r pwynt nesaf.

Dealltwriaeth Ddiwylliannol

Cyfrifoldeb Cymdeithasol: Cymhwysedd Cymdeithasol a Dinesig

Ystyried effaith gadarnhaol a negyddol celf stryd

Cwestiynau Trafod

Ynghylch y ffilm:

- *A oes gan y ffilm hon neges?*
- *A yw'r artist graffiti yn bod yn gyfrifol yn gymdeithasol?*
- *Beth y mae 'Celf am Ddim' yn ei olygu?*

Y tu hwnt i'r ffilm:

- *Beth yw celf?*
- *A yw pob graffiti yn 'gelf'?*

Pwynt siarad: *Fandaliaeth yw pob celf stryd, waeth pa mor glyfar ydyw. Trafodwch.*

Syniadau ar gyfer Mynegiant Diwylliannol

Chwiliwch ar y Rhyngrwyd am enghreifftiau o gelf stryd gywrain. A ellid addasu'r darnau hyn i fod yn greadigaethau artistig newydd?